

# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

---

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 22 Mai 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

## 210(v5)

---

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

### 2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

### 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(30 munud)

[Gweld y Cwestiynau](#)

### 4 Cwestiynau Amserol

(20 munud)



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

**Gofyn i'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip:**

**Leanne Wood (Rhondda):** A wnaiff Llywodraeth Cymru ddatganiad am yr effaith a gafwyd ar gydlyniant cymunedol yn sgil y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi gwrthod y diffiniad o Islamoffobia?

## **5 Datganiadau 90 Eiliad**

(5 munud)

**Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor (5 munud)**

**NDM7056 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.13(ii), yn ethol Caroline Jones (Plaid Brexit) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes.

## **6 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Craffu ar Gyfrifon 2017–18 – Tynnwyd yn ôl**

## **7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau: Deiseb P-05-784 Dibyniaeth ar gyffuriau presgripsiwn ac effeithiau diddyfnu – adnabyddiaeth a chefnogaeth**

(60 munud)

**NDM7053 [Janet Finch-Saunders \(Aberconwy\)](#)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Ddeiseb P-05-784 Dibyniaeth ar gyffuriau presgripsiwn ac effeithiau diddyfnu – adnabyddiaeth a chefnogaeth, a [osodwyd](#) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2019.

Noder: [Gosodwyd](#) ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mai 2019.

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Yr Economi

(60 munud)

### NDM7055 [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi methiant Llywodraeth Cymru i wireddu potensial economaidd Cymru dros yr 20 mlynedd diwethaf.
2. Yn nodi nad yw'n credu bod Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru yn ddigon uchelgeisiol i sicrhau gwelliant sylweddol yn economi Cymru.
3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau pellach i wella'r economi, gan gynnwys:
  - a) symleiddio a gwella mynediad at gymorth busnes;
  - b) sicrhau bod polisi yn cyd-fynd â strategaeth ddiwydiannol effeithiol;
  - c) diwygio prosesau caffael cyhoeddus i gefnogi busnesau bach a chanolig;
  - d) uwchsgilio ac ailsgilio'r gweithlu er mwyn manteisio ar gyfleoedd newydd; ac
  - e) gwella seilwaith.

### [Ffyniant i bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi](#)

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

#### Gwelliant 1 – [Rebecca Evans \(Gwyr\)](#)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu economi Cymru dros yr ugain mlynedd diwethaf, sydd wedi arwain at:
  - a) 300,000 yn fwy o bobl yn gweithio yng Nghymru ers 1999;
  - b) cyfraddau anweithgarwch economaidd sydd fwy neu lai yn debyg bellach i gyfartaledd y DU am y tro cyntaf erioed;
  - c) ostyngiad o dros hanner ers 1999 yn nifer y bobl o oedran gweithio sydd heb unrhyw gymwysterau;

d) y gyfran o bobl o oedran gweithio sydd â chymwysterau addysg uwch yn cynyddu o un ym mhob pum person i fwy na un ym mhob tri pherson ers datganoli;

e) y nifer uchaf erioed o fentrau gweithredol yng Nghymru.

2. Yn nodi cynlluniau Llywodraeth Cymru i sbarduno twf cynhwysol drwy'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi gan gynnwys y Contract Economaidd newydd, buddsoddiad mawr mewn seilwaith megis y fasnachfaint rheilffyrdd a Metro newydd gwerth £5 biliwn, yn ogystal â Banc Datblygu newydd Cymru gwerth £1 biliwn.

3. Yn cydnabod llawer o'r pryderon economaidd a fynegir yn refferendwm yr UE a ffocws Llywodraeth Cymru ers cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn 2017 ar feithrin economi sylfaenol i sbarduno twf cynhwysol.

4. Yn cydnabod pwysigrwydd sylfaenol gwaith teg i ddyfodol Cymru ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol i wneud Cymru yn genedl gwaith teg.

5. Yn gresynu nad yw Llywodraeth y DU wedi buddsoddi yng Nghymru dros y degawd diwethaf a'i bod wedi canslo'r bwriad i drydaneiddio'r rheilffyrdd, gwrthod y cynlluniau ar gyfer morlyn llanw a methu â sicrhau buddsoddiad ym mhrosiect Wylfa.

## **Gwelliant 2 – [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cynnull uwchgynhadledd economaidd genedlaethol i drafod dyfodol yr economi gyda rhanddeiliaid allweddol a diwydiant; a

b) deddfu ar gyfer bil adnewyddu rhanbarthol, a fydd yn gorfodi'r llywodraeth i ystyried tegwch rhanbarthol a chydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau ar wariant.

## **Gwelliant 3 [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder am ddyfodol economi Cymru ar ôl Brexit.

## **Gwelliant 4 – [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi methiant Llywodraeth y DU i gyflwyno cynigion manwl neu ymgynghori ar Gronfa Rhannu Ffyniant newydd ar ôl Brexit yn lle cyllid yr UE, o ystyried ei lle fel elfen allweddol o economi Cymru.

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7054 [John Griffiths \(Dwyrain Casnewydd\)](#)**

Anadlu'n haws yng Nghymru: Gwasanaeth adsefydlu'r ysgyfaint a rhoi'r gorau i smygu.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 4 Mehefin  
2019